Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Rhiw Bechan 3+**
**Ysgol Rhiw Bechan**
**Tregynon**
**Powys**
**SY16 3EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Rhiw- Bechan 3+ wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Tregynon ar gyrion y Drenewydd ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae wedi'i gofrestru i ddarparu gofal a phrofiadau cyn-ysgol ar gyfer un-ar-bymtheg o blant o dair blwydd oed hyd at oed ysgol. Mae mynediad trwy fynediad gwasgarog ac fel rhan o bolisi'r Awdurdod Lleol gall y rhieni ddewis i'w plant aros yn y lleoliad am dymor ychwanegol. Agorwyd y lleoliad yn 2004 ac mae'n rhan o'r ysgol. Fe'i cyllidir gan yr Awdurdod Lleol fesul plentyn a thrwy arian ychwanegol o gyllid yr ysgol. Cynhelir y lleoliad drwy gyfrwng Saesneg gan fwyaf, yn adeilad Ysgol Rhiw- Bechan. Y Person Cyfrifol (PC) ar ran Cyngor Sir Powys yw'r pennaeth dros dro'r ysgol a hi felly sydd felly yn gyfrifol am y ddarpariaeth. Rheolir y lleoliad gan gorff llywodraethol yr ysgol. Mae'r lleoliad ar agor o ddydd Llun hyd ddydd Iau o un o'r gloch tan dri o'r gloch y prynhawn yn ystod tymor ysgol ac mae'n darparu addysg ar gyfer plant tair oed.

Pan gynhaliwyd yr arolwg roedd gan ddeg o blant hawl i ddarpariaeth addysgol gyllidol. Mae saith plentyn wedi bod yn bresennol yn rheolaidd ers Ionawr 2015 a deg ers mis Medi. Nid oedd unrhyw blentyn ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Nid oedd unrhyw blentyn o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu'r lleoliad. Daw'r holl blant o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif iaith yr aelwyd.

Cyflogir dau aelod o staff parhaus yn y lleoliad, arweinydd a chymhorthydd llawn amser.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) Mawrth 2012 a chan Estyn, Tachwedd 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- Yr arweinydd yn dangos sgiliau arweinyddiaeth addas
- Ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'r ysgol gynradd
- Systemau i wella darpariaeth a chanlyniadau i blant yn awr yn eu lle
- Perthynas cryf rhwng plant ac oedolion
- Plant yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad
- Y mwyafrif o'r plant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu
- Cyfleodd i blant ddysgu Cymraeg yn gadarn

Fodd bynnag

- Does dim digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu cynnar ar draws y meysydd dysgu
- Nid yw'r plant yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu eu medrau technoleg a chyfathrebu (TGCh)
- Nid yw ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth asesu yn ddigon da i gynllunio
- Mae'r cyfleoedd i'r plant wneud dewisiadau a rheoli eu hamser eu hunain yn rhy gyfyngedig
- Ni does digon o gyfleoedd i blant ddeall y byd ehangach trwy ymweliadau addysgol neu ymwelwyr

**Rhagolygon gwella**

Mae’r rhagolygon am welliant y lleoliad yn ddigonol oherwydd mae’r:

- Person Cyfrifol (PC) ac arweinydd y lleoliad yn amlygu sgiliau arwain priodol
- Ymarferwyr yn deall amcanion y lleoliad ac maent yn gweithio'n dda fel tîm i greu ethos gofalgar lle mae plant yn hapus ac yn awyddus i ddysgu
- Perthynas yn gryf gyda rhieni a’r awdurdod lleol
- Arweinydd a’r staff yn meddu agweddau cadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant
- Corff llywodraethol yn rheoli’r cyllid, staffio ac adnoddau yn dda
- Lleoliad yn darparu gwerth da am arian

Fodd bynnag mae’r:

- Ansicrwydd am arweinyddiaeth yn y dyfodol wedi arafu gwelliant
- Ymarferwyr yn araf i ddefnyddio adnoddau newydd ac i weithredu ar gyngor gan yr awdurdod lleol
- Sustemau a phrosesau i wella canlyniadau plant yn ddiweddar ac mae'n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith ar y ddarpariaeth ac ar ganlyniadau plant

## Argymhellion

A1. Darparu mwy o gyfleoedd i blant ymarfer eu sgiliau ysgrifennu cynnar ar draws pob maes o ddysgu

A2. Cynyddu'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau TGCh ar draws pob maes o ddysgu

A3. Defnyddio gwybodaeth asesu yn fwy effeithiol i gynllunio gweithgareddau sy’n cyfatebu’n well i oedran a gallu’r plant yn enwedig i herio rhai mwy abl yn eu trydydd tymor

A4. Gweithredu systemau a phrosesau newydd yn effeithiol er mwyn gwella darpariaeth a chodi canlyniadau i blant

A5. Rhoi sylw yn ddi-oed at y materion diogelwch a amlygwyd yn ystod yr arolygiad

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | D/A |
|---|---|

**Safonau: D/A**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: D/A**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau amrywiol sy'n cyfateb i anghenion a diddordebau'r plant yn ddigonol. Maent wedi datblygu cynllun eang i ddatblygu profiadau diddorol ar draws y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn gweithio'n dda fel tîm newydd i ddarparu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a gynigir gan y plentyn a'r rhai a arweinir gan oedolion. Fodd bynnag, ychydig gyfleoedd a gynigir i blant benderfynu drostynt eu hunain beth maent am ddysgu a pha weithgareddau maent am ddewis. Ni roddir digon o bwyslais ar herio'r plant mwy galluog wrth iddynt chwarae.

Darperir cyfleoedd priodol i hyrwyddo sgiliau llythrennedd a rhifedd plant drwy brofiadau bob dydd. Mae ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu eu hiaith lafar drwy ganu caneuon a chwarae gemau. Defnyddir labeli a llyfrau yn effeithiol o gwmpas y lleoliad i wella dealltwriaeth plant o symbolau a lluniau sy'n cyfleu ystyr. Mae cyfleoedd da i blant ddatblygu eu sgiliau rhifedd drwy dasgau sy'n cael eu harwain gan oedolion a thrwy dasgau annibynnol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant ymarfer eu sgiliau ysgrifennu cynnar a'u sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm cyfan. Mae yna gyfleodd da i'r plant ddysgu ac i fwynhau'r iaith Gymraeg ac i'w ddefnyddio yn ddyddiol yn y lleoliad.

Ac eithrio TGCh a cherddoriaeth, mae digon o adnoddau o ansawdd priodol ac mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r amrywiaeth sydd ar gael. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Nid ydy'r lleoliad yn darparu digon o gyfleoedd i blant ddysgu am y byd y tu allan i'r teulu drwy, er enghraifft, ymweliadau â'r ardal leol ac ymwelwyr â'r lleoliad

**Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol. Mae’r ymarferwyr yn meddu gwybodaeth briodol o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn pontio'n effeithiol gyda phlant ac mae hyn yn creu awyrgylch cefnogol sy'n annog y plant i ddatblygu hunan- hyder a cheisio gweithgareddau newydd. Mae’r ymarferwyr yn arwain y dysgu yn dda mewn sefyllfaoedd grŵp cyfan. Maent yn gofyn cwestiynau agored yn ystod amser stori sy'n ymestyn meddwl y plant ac yn gwahodd plant i ddewis eu hoff ganeuon, lliwiau a siapiau yn ystod gemau a sesiynau cerddoriaeth. O ganlyniad, cynyddir hyder y plant i wneud dewisiadau eu hunain. Fodd bynnag, yn ystod gweithgareddau chwarae nid yw plant yn cael digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau a rheoli eu hamser eu hunain.

Nid yw’r ymarferwyr yn canolbwyntio’n ddigonol ar ddatblygu sgiliau ysgrifennu cynnar a sgiliau TGCh y plant ar draws pob maes dysgu. O ganlyniad, mae eu cynnydd yn y meysydd dysgu hyn yn arafu.

Mae dulliau’r lleoliad ar gyfer asesu a thracio cynnydd plant yn drwyadl. Gwneir arsylwadau defnyddiol o ddysgu plant yn ystod gweithgareddau ac mae'r holl staff yn rhan o hyn. Fodd bynnag, er bod y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gynllunio camau nesaf yn y gweithgareddau a arweinir gan oedolion, nid yw’r ymarferwyr eto yn defnyddio'r dystiolaeth hon o gynnydd plant i gynllunio camau nesaf ac i sicrhau her briodol i bob plentyn tra'u bod yn chwarae.
Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu’n briodol o ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau dyddiol ac adroddiad manwl pan fydd eu plentyn yn symud ymlaen i addysg prif lif.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau ar gyfer cefnogi iechyd a lles y plant yn dda yn gyffredinol. Mae’r lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar, ac mae’r corff llywodraethol yn ddiwyd yn cynhyrchu asesiadau risg rheolaidd a’r mae’r plant yn cael eu goruchwylio’n dda bob amser. Fodd bynnag, nid yw rhai agweddau o’r gofod allanol yn ddigon diogel ar gyfer plant ifanc iawn. Hysbyswyd arweinydd y lleoliad a’r Person Cyfrifol ohonynt ac maent yn prysuro i'w cywiro.

Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd addas i godi ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd bwyta'n iach, a darperir digon o gyfleoedd buddiol iddynt fod yn egnïol yn gorfforol. Mae'r lleoliad yn gweithredu cynllun sy'n hyrwyddo arfer da o ran glendid.

Mae ansawdd y gweithgareddau, ynghyd a modelu da ymarferwyr a'r sylw cyson a roddir i gynnig adborth cadarnhaol i blant yn rhoi hwb da i'w hyder a'u datblygiad personol, moesol a chymdeithasol. Hybir gwerthoedd fel tegwch, dealltwriaeth o ymddygiad derbyniol ac annerbyniol, a gofalu am eraill yn dda drwy'r gweithgareddau dyddiol. Darperir cyfleoedd da i blant gymryd rhan mewn dathliadau fel y cynhaeaf, Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol y plant.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd neb ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, mae sustemau addas ar waith i nodi anghenion dysgu ychwanegol y plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd adnabod anghenion plant yn gynnar a bod yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r awdurdod lleol o ran cydweithio gydag asiantaethau allanol arbenigol. Trosglwydda'r lleoliad wybodaeth am y plant yn effeithiol iawn i ddosbarth meithrin yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Darperir awyrgylch groesawgar a chartrefol gan yr ymarferwyr lle bo pob plentyn yn cael ei barchu ac yn derbyn cyfle cyfartal i'r holl brofiadau dysgu.

Mae'r lleoliad yn rhannu'r ystafell gyda'r ysgol. Fodd bynnag, gwneir defnydd effeithiol o'r gofod a'r cyfyngiadau storio sydd ar gael. Gofalir am yr ystafell yn dda ac mae'n fan diogel

Mae gan y plant ystod eang o weithgareddau i ddewis ohonynt gan gynnwys cornel cartref, ardal ddarllen dawel, chwarae tywod a dŵr, ardal peintio a gwneud marciau. Mae yna hefyd nifer o weithgareddau bwrdd a gweithgareddau ardal carped deniadol sy'n cael eu newid yn ddyddiol. Defnyddir neuadd yr ysgol ar gyfer dawnsio, caneuon actol a chwaraeon.

Mae nifer o wahanol ardaloedd awyr agored wedi eu lleoli o fewn tiriogaeth yr ysgol. Mae'r buarth yn ardal awyr agored ardderchog sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gyfleoedd corfforol. Mae'r dosbarth allanol yn ardal gyffrous o laswellt a choedwig. Mae'n cynnwys cilfan a sgrin helygen fyw, llwybr coediog, mannau plannu, gardd llysiau penodol ar gyfer y lleoliad a man eistedd gyfrinachol gydag eisteddfa garreg gron a'i defnyddir fel theatr i chwarae rôl, amser stori a sesiynau cerddoriaeth..

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd a'r cynorthwyydd ynghyd â'r Person Cyfrifol - sef pennaeth dros dro'r ysgol sydd newydd ei phenodi i’r gwaith hwn - yn dîm newydd a sefydlwyd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth a rheoli yn briodol. Mae hyn wedi galluogi'r ymarferwyr newydd i ddeall amcanion y lleoliad ac i ganolbwyntio ar ddarparu ethos gofalgar lle mae plant yn hapus ac yn awyddus i ddysgu.

Mae arweinwyr wedi sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau staff yn glir ac maent wedi rhoi nifer o systemau a phrosesau defnyddiol ar waith. Fodd bynnag, mae'r rhain yn gymharol newydd ac mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith ar ddarpariaeth y lleoliad a deilliannau plant.

Cynhelir gwerthusiad o berfformiad unigol y staff ac mae hwn yn nodi’n gywir eu cryfderau, agweddau i’w datblygu a’u hanghenion hyfforddiant. Mae’r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant perthnasol, yn seiliedig ar eu profiad, eu targedau datblygiad personol a blaenoriaethau'r lleoliad. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus ag un o argymhellion Estyn o’i arolygiad diwethaf yn 2009 i roi gweithdrefnau ffurfiol ar waith i fonitro ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth.

Mae arweinydd y lleoliad wedi gweithio'n effeithiol gyda chefnogaeth athrawes gyswllt yr awdurdod lleol i osod cyfeiriad strategol ar gyfer y lleoliad. Mae’r lleoliad yn rhoi sylw dyledus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft, ar ddatblygu agweddau ar y Fframwaith Rhifedd ac ar bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol i’r lleoliad a’r ysgol gyd-weithio a'i gilydd ac maent yn rheoli a goruchwylio’r lleoliad yn dda.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae’r prosesau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn addas, ond oherwydd eu bod yn gymharol newydd, ni ellir mesur eu heffaith yn llawn.

Mae'r tîm arweinyddiaeth, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, wedi cryfhau eu systemau sicrhau ansawdd ac mae hyn wedi gwella dealltwriaeth ymarferwyr o bwrpas hunan arfarnu i wella ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth. Oherwydd ansicrwydd yr arweinyddiaeth i’r dyfodol mae rhai agweddau o’r hunan- arfarnu wedi arafu. Fodd bynnag, mae gan yr arweinydd trosolwg cywir o gryfderau a diffygion y lleoliad a’r meysydd i ddatblygu yn nhermau darpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae cyswllt priodol yn bodoli rhwng deilliannau'r broses hunan arfarnu a'r targedau ar gyfer datblygu. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n dda ar wella darpariaeth ac arweinyddiaeth er mwyn codi safonau.

Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gefnogaeth yr athrawes gyswllt, y pennaeth a'r athrawon yn yr ysgol gynradd. Fodd bynnag, maent eto i fentro ar yr ystod o strategaethau sydd wedi eu cynnig gan ymgynghorwr allanol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**
Mae'r lleoliad yn rhan annatod o'r ysgol ac mae bron bob plentyn yn trosglwyddo i'r ysgol pan fyddant yn gadael y feithrinfa. Mae'r partneriaethau gyda staff yr ysgol wedi cryfhau'n ddiweddar ac mae hyn yn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r plant o un cyfnod i'r llall.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r prosbectws yn ddogfen llawn gwybodaeth sy'n rhoi iddynt wybodaeth ddefnyddiol am y lleoliad cyn i'w plentyn ei fynychu. Mae rhieni yn gwerthfawrogi polisi drws agored y lleoliad a pha mor hawdd yw cysylltu â'r staff. Croesawir y plant gan y staff wrth iddynt gyrraedd ac maent ar gael i drafod unrhyw gonsyrn sydd gan y rhieni. Maent hefyd ar gael i rieni ar ddiwedd pob sesiwn i gynnig adroddiad anffurfiol o ddiwrnod eu plentyn. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r mynediad hawdd i arsylwadau'r staff a'u tystiolaeth ffotograffig o gynnydd eu plentyn. Derbynnir adroddiad manwl a defnyddiol yn dymhorol. Mae hyn yn ymarfer effeithiol sy'n eu cynnwys yn dysgu eu plentyn.

Darparwyd hyfforddiant gwerth chweil i'r staff gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol gan gynnwys ymweliadau i leoliadau eraill i arsylwi arfer dda. Mae'n ymweld â'r lleoliad yn aml a rheolaidd gan gynnig cyngor ac awgrymiadau gwerthfawr megis sut i ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm, a rhannu canllawiau penodol ac adnoddau cerddorol. Fodd bynnag, mae ymarferwyr wedi bod yn araf i weithredu ar rhai agweddau yn rhannol oherwydd ansicrwydd staffio, sydd wedi cael eu datrys yn ddiweddar.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Er mwyn sicrhau cysondeb apwyntiwyd ymarferwyr addas a chymwysedig yn amser llawn. Mae gan yr arweinydd brofiad sylweddol gyda phlant meithrin ac o fewn yr ysgol. Mae'n sicrhau bod digon o staff yn y lleoliad bob dydd. Mae'n defnyddio cryfderau'r tîm yn dda er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol, yn enwedig i ddysgu'r iaith Gymraeg. Mae'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn gwneud pob ymdrech i wella eu gwybodaeth o'r iaith ac i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd yn y lleoliad. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi ymarferwyr yn briodol.

Ac eithrio TGCh a cherddoriaeth, mae digon o adnoddau o ansawdd priodol ac mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r amrywiaeth sydd ar gael.

Mae'r corff llywodraethol yn rheoli staff ac adnoddau yn addas. Mae'n rheoli ac yn dyrannu cyllid y lleoliad yn ofalus er mwyn sicrhau bod yna lefel briodol o staff ac adnoddau. Maent yn blaenoriaethu arian ar gyfer adnoddau TGCh gyda chefnogaeth ariannol gan Ffrindiau 3+ sydd yn codi swm sylweddol yn flynyddol.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |